Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2026
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Strategaeth genedlaethol ddrafft ar gyfer gofalwyr di-dâl 2026

Cyflwynir yr ymateb ar 13 Ebrill 2026

Gwybodaeth bersonol

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgyngoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.

Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch yma: ☐

Eich enw
Sam Bowen

Eich sefydliad (os yw hynny'n berthnasol)
Medr – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Manylion cyswllt a chyfeiriad e-bost
Sam.bowen@medr.cymru

Nodwch beth yw eich diddordeb yn y strategaeth:

- Gofalwr di-dâl
- Cyn ofalwr
- Aelod o'r cyhoedd (nid gofalwr di-dâl)
- Gweithiwr proffesiynol yn ymateb fel unigolyn
- Ymateb sefydliadol ✓
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

Pa fersiwn o'r ddogfen ymgynghori rydych chi wedi edrych arni? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ✓
- Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (fersiwn Iaith Arwyddion Prydain)
- Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (fersiwn Hawdd ei Deall) ✓
- Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (Crynodeb i Bobl Ifanc) ✓

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno mai'r wyth blaenoriaeth a amlinellir yn y strategaeth ddrafft ar dudalen 1 yw'r blaenoriaethau cywir?

- Ydw ✓
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod/ ansicr

Mae Medr yn cytuno bod yr wyth blaenoriaeth yn cynnig sylfaen gadarn a chynhwysfawr ar gyfer gwella cymorth i ofalwyr di-dâl. Maent yn adlewyrchu tystiolaeth gan ofalwyr a rhanddeiliaid, ac maent yn cyd-fynd yn fras â chyfrifoldebau statudol Medr, yn enwedig o ran cyfle cyfartal, cyfranogiad, llesiant a chynnydd.

Mae'r ddogfen yn cyfeirio at addysg bellach ac addysg uwch, ond gallai fynd ymhellach i gydnabod y dirwedd addysg drydyddol amrywiol, sy'n cynnwys addysg uwch ac addysg bellach, ond sydd hefyd yn cynnwys dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu seiliedig ar waith.

Dylai'r wyth blaenoriaeth gael eu rhoi ar waith mewn ffordd realistig a chymesur, a bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i faterion megis eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a goblygiadau o ran adnoddau. Fel arall, ceir risg o osod disgwyliadau ar ddarparwyr yn y system addysg drydyddol y byddai'n rhy anodd eu cyflawni heb gyllid ychwanegol.

Cwestiwn 2: A oes unrhyw beth yr hoffech ei rannu am unrhyw rai o'r blaenoriaethau a restrir? **Gallwch wneud sylwadau ar gynifer neu gyn lleied ag y dymunwch.**

1. Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth

Mae Medr o blaid yr uchelgais i nodi gofalwyr di-dâl yn well, ond mae'n pwysleisio pwysigrwydd disgwyliadau cymesur ar gyfer darparwyr addysg drydyddol. Mae'r strategaeth ddrafft yn cyfeirio at hyfforddiant i staff addysg, ond nid yw'n glir pa staff, ar ba lefel o ddyfnder, a pha mor aml. Rhaid i'r disgwyliadau ar gyfer y sector addysg drydyddol barhau i fod yn gymesur ac yn realistig.

Mae angen eglurder er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau'n realistig ac yn gyson â'r gofynion presennol o fewn Amod Lles Staff a Dysgwyr Medr.

2. Mynediad at wasanaethau

Mae darparwyr addysg drydyddol o blaid cyfeirio, ond dylai'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â chyfeirio at wybodaeth nodi'n glir yr hyn y bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ei wneud, yr hyn y dylai Medr ei oruchwylio, a'r hyn y bydd darparwyr yn gyfrifol amdano, a rhaid i hyn fod yn realistig.

3. Gofalwyr ifanc

Mae'r strategaeth yn cynnwys sawl cam gweithredu sy'n cyfeirio'n benodol at golegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch. Mae Medr o blaid y dyheadau hyn ond mae'n pwysleisio'r angen am ganllawiau clir er mwyn sicrhau cysondeb rhwng amgylcheddau dysgu gwahanol iawn. Ni ddylai unrhyw ddisgwyliadau newydd gyflwyno beichiau ychwanegol heb eu cyllido.

Er mwyn i Gardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc gael eu cydnabod ym myd addysg, rhaid ystyried ffordd gyson o weithredu ar gyfer pob awdurdod lleol oherwydd bydd gan unrhyw ddarparwr addysg bellach unigol ddysgwyr o fwy nag un awdurdod lleol, a gallai hynny arwain at ddeilliannau annheg i ddysgwyr os bydd yn haws i rai ohonynt gymryd rhan mewn cynlluniau Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc.

4. Caledi ariannol

Mae caledi ariannol yn rhwystr i ofalwyr mewn addysg drydyddol. Mae Medr o blaid y bwriad ond mae'n pwysleisio y dylai'r strategaeth gydnabod y cyfyngiadau sydd ar gymorth heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i allu cynnig darpariaethau, er enghraifft ffrydiau grant wedi'u targedu.

5. Cyflogaeth â thâl

Mae Medr yn argymell egluro sut y bydd disgwyl i'r sector addysg drydyddol gyfrannu, yn enwedig lle y bydd disgwyliadau'n gorgyffwrdd â rhai Gyrfa Cymru, cyflogwyr neu'r Adran Gwaith a Phensiynau.

6. Gofal amgen (seibiant) a seibiannau byr oddi wrth gyfrifoldebau gofalu

Ni fydd disgwyliadau uniongyrchol yn cael eu gosod ar ddarparwyr addysg drydyddol, sy'n briodol.

7. Iechyd meddwl a llesiant meddyliol

Mae hyn yn cyd-fynd ag Amod Lles Staff a Dysgwyr Medr, ond rhaid i'r disgwyliadau osgoi dyblygu dyletswyddau sydd eisoes yn bodoli neu gyflwyno cyfrifoldebau newydd a fyddai'n golygu bod angen adnoddau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.

8. Gofalwyr a chynllunio gofal

Ni fydd disgwyliadau uniongyrchol yn cael eu gosod ar ddarparwyr addysg drydyddol, sy'n briodol.

Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach, neu a oes unrhyw flaenoriaethau eraill y dylent fod wedi cael eu cynnwys yn y strategaeth yn eich barn chi?

Mae llwybrau dysgu oedolion a phrentisiaethau yn hanfodol i ofalwyr, ac mae'n bosibl eu bod yn ymhlyg yn y geiriad presennol, ond gellid ystyried eu bod wedi'u hepgor ar hyn o bryd.

Mae Medr yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys blaenoriaeth sy'n ymwneud yn benodol â nodi rolau'n glir ar gyfer gwahanol gyrff cyhoeddus, yn enwedig lle y bydd strategaethau'n effeithio ar fwy nag un sector sydd â fframweithiau statudol gwahanol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb, osgoi dyblygu, a sicrhau y bydd y sector addysg drydyddol yn cael disgwyliadau realistig a chymesur sy'n cydnabod y pwysau ariannol ar y sector.

Cwestiwn 4: Mae camau gweithredu o dan bob maes blaenoriaeth. Caiff y rhain eu rhestru ar dudalennau 7-23 o ddogfen y strategaeth ddrafft. A oes unrhyw beth yr hoffech ei ddweud am unrhyw rai o'r camau gweithredu hyn? **Gallwch wneud sylwadau ar gynifer neu gyn lleied ag y dymunwch**.

Mae'r sylwadau hyn yn croesgyfeirio at nifer o wahanol flaenoriaethau a chamau gweithredu:

Mae llawer o'r camau gweithredu'n gosod disgwyliadau ymhlyg ar ddarparwyr addysg drydyddol sy'n ymwneud yn bennaf â hyfforddi staff, codi ymwybyddiaeth, systemau nodi myfyrwyr a chymorth pontio.

Mae Medr o blaid y nodau hyn, ond ceir sawl risg:

- mae ffiniau aneglur yn peri risg y caiff darparwyr addysg drydyddol eu trin fel pe baent yn gyfrifol am swyddogaethau sydd y tu allan i'w cylch gwaith
- ni all disgwyliadau i roi hyfforddiant neu gymorth bugeiliol ychwanegol gael eu bodloni o fewn y cyllid presennol
- mae rhai disgwyliadau'n rhagdybio argaeledd data (e.e. nodi gofalwyr), ond bydd datgelu'n dibynnu ar ddewis dysgwyr a bydd rhai camau gweithredu'n dibynnu ar ddata nad ydynt ar gael ar hyn o bryd
- bydd angen rhagor o eglurder cyn y bydd modd gweithio tuag at fodloni unrhyw ddisgwyliadau sy'n ymwneud â monitro neu adrodd.

Mae Medr yn argymell yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pwy sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu,
- sut y bwriedir i lefel y disgwyliad a osodir ar ddarparwyr addysg drydyddol gael ei dehongli a'i bodloni,
- sut y caiff pwysau ar gapasiti eu lliniaru.

1. Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth
2. Mynediad at wasanaethau
3. Gofalwyr ifanc
4. Caledi ariannol
5. Cyflogaeth â thâl
6. Gofal amgen (seibiant) a seibiannau byr oddi wrth gyfrifoldebau gofalu
7. Iechyd meddwl a llesiant meddyliol
8. Gofalwyr a chynllunio gofal

Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach, neu a oes unrhyw gamau gweithredu eraill y dylent fod wedi cael eu cynnwys yn y strategaeth yn eich barn chi?

Cam gweithredu i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrff (gan gynnwys Medr) i fynd ati ar y cyd i ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector addysg drydyddol sy'n cydgrynhoi'r disgwyliadau ar gyfer y canlynol:

- hyfforddiant i staff
- llwybrau nodi a datgelu
- egwyddorion cymorth i ddysgwyr
- trin data a phreifatrwydd
- cymesuredd ac addasiadau rhesymol

Byddai hyn yn sicrhau bod darparwyr yn deall y disgwyliadau'n glir ac yn gyson.

Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y gallwn sicrhau fod y strategaeth yn parhau i adlewyrchu profiad a blaenoriaethau gofalwyr di-dâl?

Gan mai strategaeth pob oed yw hon, dylai safbwyntiau dysgwyr ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol gael eu hystyried, yn ychwanegol at brofiadau a blaenoriaethau gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

Cwestiwn 7: A ellid gwneud mwy i wella gwaith partneriaeth ar draws sefydliadau sy'n ymwneud â chefnogi gofalwyr di-dâl yn eich barn chi?

- Gellid
- Na ellid
- Ddim yn siŵr

Os gellid, beth arall y gellid ei wneud yn eich barn chi?

Byddai rhoi diffiniadau a llinellau sylfaen cenedlaethol ar gyfer termau fel “nodi”, “gofynion data”, “cymorth”, ac “arferion da” yn helpu i sicrhau cysondeb ac yn fodd i ddefnyddio iaith gyffredin, a allai fod o gymorth wrth weithio mewn partneriaeth ledled Cymru.

Byddai Medr yn croesawu mynegiad cliriach o'r ffordd y dylai Llywodraeth Cymru, Medr, awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a darparwyr addysg gydweithio, gan gynnwys:

- diffiniadau a rennir
- disgwyliadau ynghylch rhannu data
- rolau o ran datblygu hyfforddiant i staff

- dulliau o fynd i'r afael â chaledi ariannol ar y cyd

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Disgwylir i'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl gael effeithiau cadarnhaol o ran cydraddoldeb ledled Cymru. Fe'i datblygwyd yn unol â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029 Llywodraeth Cymru, a'i nod yw lleihau anghydraddoldeb, gwella mynediad at gymorth ac ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r strategaeth yn ymateb i'r hyn a ddywedodd gofalwyr di-dâl a rhanddeiliaid wrthym, gan gynnwys profiadau gofalwyr ifanc, gofalwyr hŷn, gofalwyr sy'n cefnogi pobl ag anghenion cymhleth, a gofalwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae hefyd yn ystyried anghenion grwpiau sydd wedi'u tanwasanaethu megis gofalwyr anabl a niwrowahanol, pobl â cholled synhwyraidd, defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, mudwyr a ffoaduriaid, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r rhai sy'n byw ar aelwydydd gwledig neu aelwydydd incwm isel.

Mae gofalwyr di-dâl yn anghymesur o debygol o fod yn fenywod, ac mae menywod yn fwy tebygol o gwtogi eu horiau gwaith neu roi'r gorau i'w cyflogaeth er mwyn darparu gofal, sy'n cael effaith ganlyniadol ar ddatblygiad eu gyrfa ac incwm yr aelwyd.

Nod yr wyth blaenoriaeth a nodir yn y strategaeth, sef gwella cydnabyddiaeth, ehangu mynediad at wybodaeth ac asesiadau, cefnogi sicrwydd ariannol, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a gwella mynediad at seibiant, yw lleihau anghydraddoldebau hirsefydlog o ran y profiad y mae gofalwyr yn ei gael o wasanaethau.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb. Mae'r prif risgiau yn ymwneud ag amrywiaeth o ran gweithredu ledled Cymru, yn enwedig os bydd mynediad at wybodaeth, asesiadau, hyfforddiant neu opsiynau seibiant yn anghyson o hyd. Gellir lleihau'r risgiau hyn drwy ganllawiau cenedlaethol clir, camau i nodi gofalwyr yn well, hyfforddiant ehangach i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr, a gwaith cydgynhyrchu parhaus gyda gofalwyr di-dâl.

Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod rhwystrau posibl a all barhau, gan gynnwys allgáu digidol, cysylltedd cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, a diffyg deunyddiau wedi'u cyfieithu neu fformatau hygyrch i ofalwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.

Cwestiwn 8: Ar ôl darllen y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, beth yw'r effeithiau cadarnhaol posibl ar ofalwyr di-dâl â nodweddion gwarchodedig yn eich barn chi, fel y'u cwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r ateb yn berthnasol i Gwestiwn 8 a Chwestiwn 9:

Mae Medr yn rhagweld effaith gadarnhaol ar y gofalwyr hynny sydd â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig benywod, dysgwyr anabl, a'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, bydd risgiau'n codi os na fydd modd i brosesau a pholisïau i gynyddu nifer y gofalwyr di-dâl sy'n hunanddiffinio gael eu cyflawni o ran lefel y cymorth sydd ar gael. Gall hyn greu disgwyliadau i bobl na ellir eu bodloni os byddant yn mynd y tu hwnt i'r cyllid neu'r adnoddau sydd ar gael neu os bydd prosesau datgelu'n creu canlyniadau anfwriadol, yn enwedig drwy gynyddu'r disgwyliadau ynglŷn â'r cymorth y bydd gofalwyr di-dâl yn ei gael wedyn.

Mae'n debygol y bydd datgeliadau'n sbarduno amrywiaeth o gyfrifoldebau mewn perthynas â chofnodi, cymorth bugeiliol, addasiadau academaidd a diogelu. Heb adnoddau ychwanegol na chanllawiau clir, ceir risg y bydd y gofynion yn mynd y tu hwnt i gapasiti darparwyr i ymateb mewn modd amserol a chyson.

Cwestiwn 9: Pa heriau neu risgiau i ofalwyr di-dâl â nodweddion gwarchodedig y dylem eu hystyried yn fanylach yn eich barn chi wrth lunio fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl?

Gweler Cwestiwn 8

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Gwnaeth gofalwyr ifanc ein helpu i ddatblygu Asesiad drafft o'r Effaith ar Hawliau Plant drwy sesiynau ymgysylltu, cynrychiolaeth yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ac adborth a gasglwyd ledled Cymru, gan dynnu sylw at faterion megis cydnabyddiaeth mewn ysgolion, pwysau emosiynol, cymorth iechyd meddwl a chaledi ariannol.

Mae'r asesiad yn nodi risgiau allweddol, gan gynnwys camau i nodi gofalwyr gan wasanaethau, mynediad at seibiant, rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol a'r potensial i blant ymgymryd â rolau gofalu amhriodol. Mae'r risgiau hyn yn berthnasol i hawliau plant fel y'u diffinnir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mewn ymateb, mae'r strategaeth yn nodi camau gweithredu gyda'r bwriad o gryfhau prosesau i gydnabod a chefnogi gofalwyr ifanc. Nod camau gweithredu yn y strategaeth yw sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod, eu diogelu a'u cefnogi; tra bydd prosesau monitro a chynlluniau cyflenwi yn y dyfodol yn ceisio mynd i'r afael â risgiau o ran gweithredu a hyrwyddo cymorth mwy cyson ledled Cymru.

Cwestiwn 10: Ar ôl darllen y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, beth yw'r effeithiau cadarnhaol posibl ar ofalwyr ifanc a'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn eich barn chi?

Ateb ar gyfer Cwestiwn 10 a Chwestiwn 11

Gallai'r strategaeth atgyfnerthu hawliau gofalwyr ifanc, yn enwedig mewn perthynas â chydnabyddiaeth a chyfranogiad mewn addysg. Mae'r prif risgiau'n ymwneud â threfniadau anghyson gan wahanol ddarparwyr ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith, a beichiau posibl ar staff heb adnoddau ychwanegol.

Cwestiwn 11: Pa heriau neu risgiau i ofalwyr ifanc a'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylem eu hystyried yn fanylach yn eich barn chi wrth lunio fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl?

Gweler Cwestiwn 10

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r strategaeth ddrafft wedi cael ei llunio yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg a fframwaith strategol Mwy na Geiriau. Pan fydd pobl yn cael gofal neu'n ceisio cael gafael arno, bydd hyn fel arfer yn digwydd pan fyddant yn teimlo fwyaf agored i niwed, felly mae bod yn hyderus yn eu hiaith eu hunain yn bwysig. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae i'r Gymraeg statws swyddogol. Mae Safonau'r Gymraeg wedi'u rhwymo mewn cyfraith ac fe'u gosodwyd ar gyrff iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r safonau hyn yn ategu Mwy na Geiriau, sef ein cynllun i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae egwyddor 'y Cynllun Rhagweithiol' wrth wraidd Mwy na Geiriau ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod y claf / defnyddiwr y gwasanaeth yn gorfod gofyn amdanynt. Ein gweledigaeth ar gyfer Mwy na Geiriau yw i'r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn cael gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith, gan arwain at ganlyniadau gwell, heb orfod gofyn amdano.

Mae'r Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi bod y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ofalwyr sy'n siarad Cymraeg drwy gryfhau mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chymorth dwyieithog. Mae'r strategaeth yn gyson â deddfwriaeth a fframweithiau allweddol, megis Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Cymraeg 2050, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a fframwaith Mwy na Geiriau, gan helpu i ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol a sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth yn yr iaith a ffefrir ganddynt.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r strategaeth hon ac rydym wedi ystyried risgiau posibl i sicrhau y cânt eu rheoli'n briodol drwy'r broses weithredu. Ar draws yr wyth maes blaenoriaeth, mae'r strategaeth yn atgyfnerthu camau i nodi anghenion iaith gofalwyr yn gynnar, yn unol

â gofynion y Cynnig Rhagweithiol, gyda phartneriaid cyflenwi, mewn meysydd megis iechyd meddwl, seibiant, arweiniad ariannol, cyngor ar gyflogaeth a chynllunio gofal. Disgwylir y bydd yn cryfhau argaeledd mynediad at wybodaeth a chyngor a chymorth yn Gymraeg i ofalwyr ifanc mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod risgiau o hyd mewn perthynas ag amrywiadau rhanbarthol a chapasiti cyflenwi'r rhai sy'n gweithio gyda gofalwyr di-dâl, gellir lliniaru'r rhain drwy gyfrifoldebau partneriaid cyflenwi i gynnal Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol. Bydd yr ymatebion a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i nodi unrhyw effeithiau pellach a byddant yn llywio'r strategaeth derfynol.

Cwestiwn 12: Ar ôl darllen y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, beth yw'r effeithiau cadarnhaol posibl ar y Gymraeg yn eich barn chi? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ateb ar gyfer Cwestiwn 12 a Chwestiwn 13

Mae Medr o blaid y ffocws ar sicrhau cymorth dwyieithog i ofalwyr. Bydd angen i'r sector addysg drydyddol gael disgwyliadau clir sy'n gyson â'r blaenoriaethau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol i ehangu darpariaeth mewn modd cynaliadwy. Ceir rhai pryderon ynghylch p'un a oes digon o gapasiti yn y gweithlu ai peidio, ac mae'n bosibl y bydd angen cyllid ychwanegol i gyflawni'r rhwymedigaethau'n llawn.

Cwestiwn 13: Pa heriau neu risgiau i'r Gymraeg y dylem eu hystyried yn fanylach yn eich barn chi wrth lunio fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl?

Gweler Cwestiwn 12

<u>Cwestiwn Olaf</u>

Cwestiwn 14: Gan feddwl am yr ymgynghoriad hwn yn gyffredinol, a oes unrhyw faterion nad ydym wedi ymdrin â nhw sy'n berthnasol yn eich barn chi? Os felly, rhowch fanylion yn y bwlch isod.

Bydd yn ofynnol i bob darparwr addysg drydyddol sydd wedi'i gofrestru â Medr neu a gaiff ei reoleiddio ganddo o fis Awst 2027 ymlaen fodloni dau amod rheoleiddio craidd sy'n ymdrin yn uniongyrchol â llawer o'r meysydd y cyfeirir atynt yn y strategaeth ddrafft.

Yn gyntaf, mae'r Amod Cyfle Cyfartal yn gosod gofyniad ar ddarparwyr i nodi rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad at eu hastudiaethau, cymryd rhan ynddynt, parhau i ymgymryd â nhw a'u cwblhau'n llwyddiannus, yn ogystal â

monitro'r rhwystrau hynny a mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol, ariannol a sefydliadol.

Mae'r Amod Lles Staff a Dysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ystyried polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant a diogelwch staff a dysgwyr.

Gyda'i gilydd, mae'r amodau hyn eisoes yn creu fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg drydyddol. Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw ddisgwyliadau newydd sy'n deillio o'r strategaeth derfynol yn cyd-fynd â'r amodau sydd eisoes yn bodoli.

Diolch yn fawr iawn am roi o'ch amser i gwblhau'r ymgynghoriad hwn.